

## Oedfa Nadolig Brynhafod

Ar y Sul cyn y Nadolig cynhaliwyd oedfa dan ofal ieuentid a phlant yr eglwys a'r ardal, gan ddathlu yn swm carolau, darlleniadau a datganiadau cerddorol amrywiol. Fel sy'n arferol ers rhai blynyddoedd bellach, trefnwyd y gwasanaeth gan Enfys Hatcher. Diolch iddi am ei threfniadau manwl. Yn dilyn y gwasanaeth ymgasglodd pawb yn y festri i fwynhau lluniaeth a chlone cyn ymweliad Sion Corn.

Gwnaed casgliad o £110 tuag at 'Apêl y Phillipines, Cymorth Cristnogol.' Diolchodd y gweinidog i bawb am eu cyfraniadau at yr oedfa.  
(*Diolch i Mair am yr adroddiad*)

## Cylch Darllen

(Festri Noddfa am 10.30)

12 Chwefror - Josua 3, 4

12 Mawrth - Josua 5, 6

Peggy yn gwneud y paned

Croeso i bawb

## Astudiaeth Feiblaidd: Epistolau Ioan

dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan yn y **Gilfach**, Heol y Gogledd, Llambled am 7 o'r gloch

5 Chwefror: 1 Ioan 4:1-21

19 Chwefror: 1 Ioan 5: 1-21

5 Mawrth: 2 Ioan; 26 Mawrth: 3 Ioan  
Croeso i bawb

## Capel Bethel Silian


Mae'n arferiad dymunol yng Nghapel Bethel, Silian yn flynyddol i ieuentid y capel gynnal y Cwrdd Nadolig. Dechreuwyd y gwasanaeth drwy gymharu Bethlehem heddiw â Bethlehem adeg ganwyd Iesu Grist. Gymaint o hapusrwydd miloedd o flynyddoedd yn ôl a gymaint o gasineb a dioddefaint heddiw. Cyflwynwyd stori'r Nadolig drwy air a chân gan Iwan Uridge, Owen Williams, Hedydd Davies, Elliw Dafydd, Dewi Uridge, Aron Dafydd, Gethin Morgan a chafwyd cân hynod o swynol gan Marec ac Erin Davies ac Elen Davies.

Soniwyd am y weithred o roi anrhegion adeg y Nadolig fel arwydd o anrheg Duw i'r byd yn Iesu Grist ac anrhegion y Bugeiliaid a'r Doethion i'r Baban bach. Dosbarthwyd anrhegion i'r gynulleidfa gan Cadi Williams a Trystan Williams.

Y cyfeilyddydion oedd Owen Williams a Gethin Morgan. Roedd hi'n bleser bod yn bresennol i weld ieuentid y Capel yn cynnal y gwasanaeth yn gyfangwbl.

Ar ôl y gwasanaeth, cafwyd ysbaid i gymdeithasu gyda gwin poeth a mins peis. Gadawodd pawb y gwasanaeth yn ysbryd y Nadolig gyda gwên ar eu wyneb.  
(*Diolch i Gwen am yr adroddiad.*)

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn 16 Mawrth: Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmam SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net



# Deufis

Eglwys Bedyddwyr Gogledd Teifi

Chwefror a Mawrth 2014

## Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

### 2 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

### 9 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Mr Gerwyn Morgan
Bethel	10.15 y bore	Oedfa gymun i Fethel, Caersalem a Noddfa dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan
Seion	2.00 y prynhawn	Oedfa i Seion a Brynhafod dan ofal Mrs Doreen Jones

### 16 Chwefror

Noddfa	9.30 y bore
Aberduar	11.00 y bore
Caersalem	2.00 y prynhawn

### 23 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Mr Silyn Thomas
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	11.30 y bore	
Seion	3.00 y prynhawn	

drosodd/...

## Trefn y Suliau (parhad)

### 2 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

**Gwener 7 Mawrth:** cwrdd gweddi'r chwiorydd, 2.00 Bethel Cwmann

### 9 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Dwynwen Teifi
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

### 16 Mawrth

Noddfa	9.30 y bore
Aberduar	11.00 y bore
Caersalem	2.00 y prynhawn

### 23 Mawrth

Aberduar	10.00 y bore	Parchg Wynn Vittle
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	11.30 y bore	
Seion	3.00 y prynhawn	

### 30 Mawrth

Brynhafod	10.30 y bore	Oedfa unedig i'r Cylch
-----------	--------------	------------------------

*Rhaghysbys 6 Ebrill:*

<i>Aberduar</i>	<i>10.00 y bore</i>	<i>Cymun</i>
<i>Noddfa</i>	<i>amser i'w hysbysu</i>	<i>Oedfa ieuencid</i>

## Y Nadolig yn Aberduar

Cynhaliwyd oedfa arbennig ar gyfer y Nadolig yng nghapel Aberduar ar y 15eg o Ragfyr. Yn cymryd rhan oedd nifer o fobl ifainc yr eglwys. Cyflwynwyd y weddi agoriadol gan Rhian Milcoy. Cafwyd hefyd ddarlleniad ganddi o Lyfr Eseia. Cyflwynwyd yr emynau gan Elin Evans, Gareth Williams, Christopher Jacob, Dewi Davies ac Anne Milcoy. Cafwyd darlleniau allan o'r Ffordd Newydd gan Elin Evans a cyflwyniadau gan Arwel Jenkins, a Lowri a Hedydd Wilson yn sôn am

*Ar gyfer eich dyddiadur: cofiwch am ddau ddyddiad pwysig ar gyfer Cymanfa Ganu mis Mai: rihyrsal ar y 1leg o Fai, yng Nghaersalem, ac yna, Cymanfa ar y 18ed o Fai.*

y Nadolig cyntaf. Yn cyfeilio wrth yr organ oedd Rhiannon Lewis. Hefyd yn ystod y gwasanaeth cafwyd cân hyfryd gan Rhiannon. Cyflwynwyd gweddi gan Lowri Wilson. Yn dilyn cafwyd anerchiad gan ein gweinidog a wnaeth hefyd ddiolch i bawb. Trefnwyd yr oedfa gan Dewi Davies Glynteg. Yn dilyn yr oedfa fe wnaeth pawb droi i fewn i'r festri am baned a sgwrs wedi ei baratoi gan y chwiorydd.

Am naw o'r gloch fore dydd Nadolig cafwyd oedfa hyfryd iawn dan arweiniad ein gweinidog. Cyhoeddwyd yr emynau gan Christopher Jacob, Arwel Jenkins a Gareth Williams gyda Rhiannon Lewis wrth yr organ. Cafwyd neges arbennig gan y gweinidog. Carwn ddymuno blwyddyn newydd dda iddi hi a'r teulu. *(Diolch i Dewi, Glynteg, am yr adroddiad hwn ac am y cyfarchion!)*

## Ysgol Sul Noddfa

Daeth cynulliad teilwng iawn ynghyd i Noddfa i ddathlu'r Nadolig mewn gwasanaeth arbennig yng ngofal yr Ysgol Sul wedi ei baratoi gan Janet. Unwyd y traddodiadol a'r cyfoes mewn pennill a chân a phawb o'r ieuengaf i'r hynaf, 23 i gyd, yn cyflawni eu gwaith yn ardderchog. Galwodd Sion Corn heibio a bu'n dosbarthu llond sach o anrhegion. I gloi prynhawn bendithiol a phleserus dros ben mwynhawyd te parti ardderchog wedi ei drefnu gan Llinos gyda chymorth y rhieni eraill.

Ar 17 Ionawr bu criw o'r plant yn diddori'r preswylwyr yng Nghartref Hafandeg. Cyflwynwyd amrywiaeth o eitemau safonol gan unigolion a grwpiau a braf oedd gweld y Mamau hefyd yn cymryd rhan. Diolchodd Mrs. Dilys Megicks i'r plant a'u rhieni am roi o'u hamser a'u doniau i'r Henoed gan ddod â chymaint o bleser iddynt. Cafwyd cyfle wedyn i gymdeithasu ac i fwynhau paned a danteithion ysgafn.

Ar 18 Ionawr aeth y plant a'u rhieni ac ambell i Fam-gu ar eu hymwelriad blynyddol â'r Panto yn Theatr y Werin, Aberystwyth. Roedd y cynhyrchiad eleni eto yn un gwych llawn hiwmor ac mor broffesiynol. Bu'n brynhawn difyr dros ben. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd gystadleuaeth y logo. Yr enillydd oedd Myfanwy a diolch iddi am gyflwyno'r wobwr yn ol i'r Ysgol Sul.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o gyd-weithio hapus a llwyddianus.  
*(Diolch i Janet am yr adroddiad.)*